# Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru
# Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Cenedlaethol ar Ystadegau
# Cofnodion Cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2021
# drwy Microsoft Teams

## Yn bresennol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Steph | Howarth | SH | Llywodraeth Cymru (LlC) |
| Sue | Leake | SL | Llywodraeth Cymru (LlC) |
| Nia | Wyn Vaughan | NWV | Cyngor Gwynedd |
| Lowri | Wyn Morton | LWM | Cyngor Gwynedd |
| Vicki | Doyle | VD | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Lesley | Rees | LR | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Janine | Edwards | JE | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Caitlin | Theodorou | CT | Cyngor Sir Ceredigion |
| Vanessa | Dale | VD | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Fiona | Clay-Poole | FCP | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Lloyd | Fisher | LF | Cyngor Bro Morgannwg |
| Henry | Knowles | HK | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Tryfan | Williams | TW | Cyngor Gwynedd |
| Eleri | James | EJ | Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg |
| Helen | Jones | HJ | Ymchwil y Senedd |
| Lucy | Butler | LB | Cyngor Bro Morgannwg |
| Nathan | Lester | NL | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Sergio | Recio | RS | Estyn |
| Leanne | John | LJ | Dinas a Sir Abertawe |
| Richard | Cardwell | RC | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| William | Miles | WM | Cyngor Sir Fynwy |
| Jay | Davis | JD | Cyngor Sir y Fflint |
| Duncan | MacKenzie | DMK | Data Cymru |
| Lee | Clarke | LC | Cyngor Dinas a Sir Caerdydd |
| Johnathon | Radcliffe | JC | Chwaraeon Cymru |
| Tom | Brame | TB | Data Cymru |
| Sam | Sullivan | SS | Data Cymru |
| Wanda | Kirby | WK | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Daniel | Cummings | DC | Data Cymru |
| Steve | King | SK | Dinas a Sir Abertawe |
| Elaine | Smith | ES | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Paul | Jones | PJ | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Andy | Wilson | AW | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Alwyn | Williams | AlW | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Catrin | Gilkes | CG | Cyfieithu |
| Gareth | Barclay | GB | Cyngor Sir y Fflint |
| Will | Perks | WP | Llywodraeth Cymru |

## Siaradwyr

| | | | |
|---|---|---|---|
| Neil | Townsend | NT | Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Andy | O'Rourke | AOR | Llywodraeth Cymru |
| Rachel | Punton | RP | Llywodraeth Cymru |
| Rachel | Dolman | RD | Llywodraeth Cymru |

## Ymddiheuriadau

| | | |
|---|---|---|
| Geraint | Morgan | Cyngor Sir Powys |
| Karen | Hawkes | Cyngor Sir Ddinbych |
| Shaun | Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Matthew | Scanlon | Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog |
| Eifion | Rees | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Karen | Armstrong | Cyngor Sir y Fflint |
| Kate | Jones | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM |
| Steven | Marshall | Llywodraeth Cymru |
| Nia | Jones | Llywodraeth Cymru |
| Phillip | Barlow | Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| Sioned | Cardew-Richardson | Estyn |
| Sharon | Davies | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Anna | Nicholl | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| Andrew | Stephens | Data Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Croeso, Cyflwyniad ac Ymddiheuriadau | |
| | Dechreuodd SL y cyfarfod drwy egluro y byddai SH ychydig funudau yn hwyr o bosibl. Eglurodd hefyd fod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael a nododd sut y dylid deialu i mewn. Dywedodd y dylai papurau'r cyfarfod fod wedi'u dosbarthu, a phe bai unrhyw broblemau o ran cael gafael arnynt, y gellid eu hailanfon. | |
| 2. | Nodyn o'r cyfarfod diwethaf a'r wybodaeth ddiweddaraf am bwyntiau gweithredu | |
| | Mae angen i asesiadau llesiant fod yn eitem sefydlog am y tro (JE)<br><br>Croesawodd Data Cymru adborth ar ei borth mudo<br>Mae'r cais am adborth ar agor o hyd.<br><br>Ymunodd SH ac aeth drwy'r camau gweithredu a nodwyd yn y cyfarfod diwethaf. Daeth i'r casgliad bod pob un ohonynt wedi'u cwblhau | **Cam gweithredu:** Yr ysgrifenyddiaeth i ychwanegu asesiadau llesiant fel eitem sefydlog ar yr agenda |
| 3. | Adolygiad o'r papurau gwybodaeth | |
| | Diweddariad chwarterol Ystadegau Cymru:<br>Tynnodd SL sylw at un neu ddau beth yn y diweddariad:<br>- cyhoeddiadau ynghylch ysgolion ac addysg, gan gynnwys cyhoeddiad wythnosol ar bresenoldeb mewn ysgolion gan ddefnyddio gwybodaeth reoli, gyda phwyslais ar y ffaith nad yw'n faich trwm ar ysgolion.<br><br>- Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried amseriad y cyfrifiad ysgolion, o ystyried y ffaith y bu'r ysgolion ar gau ym mis Ionawr.<br><br>- y datganiad misol newydd sy'n cynnwys gwybodaeth reoli am lety i bobl ddigartref a chysgu allan. | **Cam gweithredu:**<br>SL i sicrhau y caiff yr aelodau y wybodaeth ddiweddaraf am benderfyniadau ynghylch y cyfrifiad ysgolion |

| | | |
|---|---|---|
| | - mae data dros dro ar gael ar dai fforddiadwy 2019/20 ond bwriedir cyhoeddi datganiad manylach ymhen mis.<br><br>- data ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol – bu oedi cyn casglu data ond mae data ar blant sy'n derbyn gofal (lefel unigolyn) wrthi'n cael eu prosesu nawr.<br><br>- dadansoddiad newydd MALIC (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) o nodweddion gwarchodedig, ond ni fydd y data ar ddangosyddion yn cael eu diweddaru eleni<br><br>Soniodd DM fod angen hyfforddiant ar sut i ddefnyddio data MALIC oherwydd gallai fod yn ddefnyddiol eu cynnwys yn y broses asesu ar gyfer BGCau.<br><br>Diweddariad ar ddemograffeg:<br>Caiff amcanestyniadau o boblogaeth parciau cenedlaethol eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2021 ar ôl cytuno ar y fethodoleg<br><br>Diweddariad Data Cymru:<br>Soniodd SS fod dangosfwrdd wrthi'n cael ei greu ar gyfer data COVID-19 gan gynnwys achosion, marwolaethau ac achosion dros amser.<br><br>Soniodd SS hefyd y caiff hyfforddiant ei gynnal ym mis Ebrill ar grwpiau ffocws a dylunio arolygon<br><br>Y data diweddaraf ar wasanaethau awdurdodau lleol – mae'r cyfryngau cymdeithasol yn bwydo gwefannau ALlau<br>- Argaeledd gwasanaethau allweddol awdurdodau lleol<br><br>Pwysleisiodd SS fod CACI wedi cynnig adnoddau data am ddim i gyrff cyhoeddus eu defnyddio gyda data COVID<br><br>Siaradodd DC am ei waith ar wybodaeth am y farchnad lafur, cymorth economaidd a sgiliau a chyflogadwyedd. Gweithio gydag awdurdodau lleol ar dasgau penodol, e.e. cynlluniau adfer cyflogaeth. Defnyddio gwybodaeth am ystadegau i weithio allan pa swyddi y gall gweithwyr ym maes lletygarwch eu llenwi<br>Adroddiadau gan awdurdodau lleol ar swyddi gwag yn ôl galwedigaethau – ym mis Ebrill, yr unig alwedigaethau lle y gwelwyd cynnydd yn nifer y swyddi gwag oedd nyrsys, porthorion mewn ysbytai a chlerigwyr.<br><br>Soniodd DC hefyd am Data Agored Cymru. HWB i rannu data agored rhwng cyrff cyhoeddus. Caiff profion beta eu cynnal gyda sawl awdurdod lleol ym mis Mawrth.<br><br>Gofynnodd SH am ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yng nghyd-destun yr hwb data agored. Nododd DC fod y pwnc hwn wedi'i godi hefyd gan yr awdurdodau lleol eu hunain fel defnydd posibl ar gyfer yr hwb. | **Cam gweithredu:** Dylai unrhyw un sy'n awyddus i gymryd rhan yng ngwaith Data Cymru i ddatblygu Dangosfwrdd COVID neu'r hyfforddiant gysylltu â SS<br><br>**Cam gweithredu:** Dylai unrhyw un sydd â diddordeb yn adnoddau data CACI gysylltu â Data Cymru neu CACI yn uniongyrchol |
| 4. | Diweddariad ar adroddiad tueddiadau'r dyfodol | |
| | Rhoddodd RP, sy'n aelod o dîm polisi Dyfodol Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, gyflwyniad ar y gwaith sy'n mynd rhagddo.<br><br>Prif ffocws y drafodaeth oedd y modd y maent yn adeiladu ar adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2017 mewn tri phrif faes, sef ymwybyddiaeth a hygyrchedd, defnydd a chymhwyso a data a chynnwys, gan sicrhau bod yr adroddiad yn berthnasol ac yn briodol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Soniodd RP am y gwaith sydd wedi bod yn mynd rhagddo gyda Byrddau Gwasanaethau Cyheoddus (BGCau) a chydgysylltwyr datblygu cynaliadwy i drafod sut y gallai'r adroddiad hwn fod yn fwy defnyddiol. Un o'r casgliadau oedd nad oedd llawer o BGCau yn ei ddefnyddio'n llwyddiannus fel adnodd ac, felly, mae'r tîm yn ystyried cynnal gweithgareddau ymgysylltu, seminarau a gweithdai er mwyn helpu gyda hyn.<br><br>Pwysleisiodd RP hefyd y dylai'r Adroddiad gael ei baratoi mewn ffordd gydweithredol. Dylai'r drafft cyntaf fod ar gael i BGCau ym mis Gorffennaf 2021 er mwyn rhoi syniad iddynt o'r themâu.<br><br>Nododd JE fod yr adroddiad wedi cael ei gyhoeddi'n rhy hwyr i fod yn ddefnyddiol y tro diwethaf, a'i bod yn debygol y caiff adroddiad llawn Gwanwyn 2022 ei gyhoeddi'n rhy hwyr hefyd. Byddai'n well gweld fersiwn gynnar ohono neu ganllawiau bras nawr, yn hytrach na'r fersiwn orffenedig ymhen tri mis.<br><br>Soniodd JE hefyd ei bod hi'n anodd gwybod a yw pethau sy'n cael eu newid yn sgil COVID a Brexit yn dueddiadau presennol sydd wedi cyflymu neu'n blipiau. Nododd RP y bydd yr adroddiad yn cynnig cyngor ar hyn.<br><br>Cododd JE y ffaith y byddai'n fuddiol, yn ei barn hi, siarad â chynllunwyr defnydd tir gan fod angen iddynt gynllunio mwy na phum mlynedd ymlaen llaw.<br><br>Yn ôl VD, nid yw pawb yn gwybod pwy yr ymgysylltir â nhw mewn mannau eraill/ar lefel uwch, ond efallai y bydd angen i bobl sy'n ymwneud â Phwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru gael y wybodaeth honno hefyd.<br><br>Holodd LM a fyddai modd rhannu'r fersiwn ddrafft o adroddiad tueddiadau'r dyfodol rhwng grwpiau tra bod yr adroddiad yn cael ei lunio.<br><br>Awgrymodd DMK fod rhai canllawiau'n cael eu llunio'n ganolog yn Llywodraeth Cymru gan dîm Kevin Griffiths i gefnogi awdurdodau lleol, ynghyd â rhai gweithdai a chyngor ar gyfer y broses asesu. | **Cam gweithredu:** RP i rannu gwybodaeth am y rhai yr ymgysylltir â nhw mewn perthynas ag Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol<br><br>**Cam gweithredu:** Kevin Griffiths (LIC) i rannu diweddariad ysgrifenedig ar asesiadau llesiant lleol yn absenoldeb eitem ar yr agenda |
| 5. | Dangosyddion cenedlaethol – crynodeb o'r sefyllfa ddiweddaraf a chynlluniau ar gyfer newid unrhyw ddangosyddion cenedlaethol | |
| | Rhoddodd AOR ddiweddariad ar adroddiad blynyddol Llesiant Cymru a datblygiadau o ran y Dangosyddion Cenedlaethol. Nododd fod yr adroddiad yn fyrrach eleni am fod adnoddau wedi cael eu dargyfeirio i gefnogi'r ymateb i'r pandemig. Adroddiad cryno ydyw ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20. Soniodd AOR hefyd fod rhai o'r casgliadau data a ddefnyddir ar gyfer y dangosyddion cenedlaethol wedi cael eu hatal dros dro neu eu newid yn sgil y pandemig.<br><br>Eglurodd AOR fod disgwyl i adroddiad llesiant llawnach gael ei gyhoeddi ar gyfer eleni (2021), yn debyg i adroddiad 2019.<br><br>Nododd AOR fod rhai newidiadau i'r set o ddangosyddion cenedlaethol wedi cael eu cynllunio (e.e. ar waith teg) ond bod y rhain wedi cael eu hatal dros dro y llynedd oherwydd y pandemig. Bydd y gwaith hwn yn ailgychwyn eleni. Mae cyfle hefyd i awgrymu nifer bach o ychwanegiadau i'r dangosyddion cenedlaethol, yn seiliedig ar ddysgu a phrofiadau yn ystod y pandemig.<br><br>Y set o ddangosyddion cenedlaethol | |

| | | |
|---|---|---|
| | Awgrymodd aelodau fod y bylchau canlynol yn bodoli o ran dangosyddion:<br>- Tlodi bwyd, mynediad i fwyd iach<br>- Diogelwch bwyd a chapasiti cynhyrchu bwyd – ffiniau<br>- Cyfran y bobl sy'n byw heb fygythiad o drais (seicolegol, corfforol, emosiynol)<br>- Salwch hirdymor – hunanladdiad a defnydd niweidiol o alcohol<br>- Iechyd meddwl plant<br>- Cydberthnasau neu ynysu/swigod cymorth<br>- Anghydraddoldeb o ran incwm ac adnoddau (effeithiau dosbarthiadol)<br>- Cynhwysiant digidol<br><br>Gofynnodd NWV a fyddai'n bosibl defnyddio'r dangosyddion ar lefel is na Chymru. Eglurodd SH y gallai hynny fod yn bosibl mewn rhai achosion ond ei bod yn dibynnu ar y dangosydd, gan ei fod yn amrywio fesul achos yn dibynnu ar y set ddata sylfaenol.<br><br>Gofynnodd SK a gafwyd erioed ymateb ffurfiol gan Lywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar gerrig milltir / yswiriant gwladol yn 2019. Nododd SH fod y gwaith hwnnw wedi'i atal dros dro yn sgil y pandemig, ond bod gwaith yn ailddechrau i nodi dangosyddion ar gyfer llunio cerrig milltir.<br><br>Cododd JE y mater yn ymwneud ag anghydraddoldeb o ran incwm/adnoddau hefyd (ac nid yr un peth â mesurau ‘syml’ neu gydnabyddedig o dlodi/amddifadedd). Cytunodd SH nad yw dosbarthiad incwm/anghydraddoldeb yn cael ei gynrychioli'n dda ar hyn o bryd ac na ellir cael y dyfnder na'r ddealltwriaeth honno bob amser wrth ddefnyddio cyfartaleddau.<br><br>Soniodd ES am amddifadedd digidol a gallu pobl i gyfrannu at ddigwyddiadau. Cytunodd WP ei bod yn ymddangos bod hynny wedi cael ei amlygu yn ystod y pandemig. Nododd LR, er bod hyn wedi cael ei amlygu yn sgil y pandemig, bod ardaloedd mawr o gefn gwlad lle nad yw'n bosibl cael gwasanaeth band eang digonol o hyd. Nododd ES y gallai fod amddifadedd digidol oherwydd diffyg band eang, diffyg sgiliau digidol, y ffaith nad yw pobl yn gallu fforddio cyfarpar TG a diffyg gwybodaeth am sut i osod y cyfarpar a'i ddefnyddio. | |
| 6. | COVID-19 | |
| | Rhoddodd RD ddiweddariad ar y gwaith ystadegol y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud mewn perthynas â COVID-19. Eglurodd mai'r datblygiad mwyaf ers y cyfarfod diwethaf oedd y broses o gyflwyno'r rhaglen frechu.<br><br>• Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru dab brechu ar ei ddangosfwrdd, a gaiff ei ddiweddaru'n ddyddiol gyda ffigurau lefel uchel. Bwriedir sicrhau bod mwy o fanylion ar gael – grwpiau oedran, preswylwyr cartrefi gofal, gweithwyr gofal ac iechyd.<br>• Soniodd fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi mwy o wybodaeth am y rhaglen frechu ei hun, gan gynnwys stociau o'r brechlynnau a'r dosau.<br>• Soniodd RD am ddatganiad wythnosol newydd ar nifer yr achosion o COVID y mae sefydliadau addysg uwch yng Nghymru wedi cael gwybod amdanynt<br>• Mae arolwg ar-lein sy'n ystyried effaith COVID ar grwpiau iaith Gymraeg wedi'i gyhoeddi.<br>• Soniodd RD am y cynlluniau datblygu ar gyfer dangosfwrdd cyhoeddus sy'n dwyn ynghyd yr ystod eang o ystadegau | |

| | | |
|---|---|---|
| | COVID mewn un man (gan gynnwys niwed economaidd a chymdeithasol).<br>Nododd SS y byddai'n ddefnyddio gweld data ar nifer y bobl y cynigiwyd brechlyn iddynt a'r nifer sydd wedi manteisio ar y cynnig hwnnw<br>Nododd SL fod angen i ni sicrhau ein bod yn deall rolau dangosfyrddau gwahanol a bod cyswllt da rhyngddynt<br><br>. Nododd SS y byddai'n fodlon trafod yr hyn y mae dangosfwrdd Data Cymru yn ei gynnig a'r cynlluniau ar ei gyfer.<br><br>Nododd TW fod dolen i ddata y gellir eu lawrlwytho a'u hailddefnyddio o ddangosfwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn ddefnyddiol o ran achosion. Mae brechlynnau yn faes newydd, ond byddai'r gallu i lawrlwytho set ddata gyflawn ar grwpiau â blaenoriaeth ac ardaloedd daearyddol is dros amser yn cael ei groesawu'n fawr.<br><br>Soniodd DC am y gwaith y mae wedi bod yn ei wneud gydag awdurdodau lleol yn ddiweddar ym maes ffyniant/amddifadedd. Roedd llawer o ddiddordeb yn y gwaith hwn ac awgrymwyd y dylid cynnwys eitem penodol ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.<br><br>Awgrymodd SH y dylai DC gysylltu â Mel Brown yn Llywodraeth Cymru gan ei bod hi wedi bod yn edrych ar ddata ar weithio gartref/gweithio o bell. | **Cam gweithredu:** DC i gyflwyno eitem ar ffyniant ac amddifadedd yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor |
| 7. | Diweddariad ar y cyfrifiad | |
| | Rhoddodd NJ ddiweddariad ar y cynlluniau ar gyfer y cyfrifiad. Pwysleisiodd NT mai cyfrifiad digidol yn gyntaf ydyw, ac y bydd gweithrediadau maes yn dilyn er mwyn mynd i'r afael ag achosion o ddiffyg ymateb. Cynhelir ymweliadau ar garreg y drws ag aelwydydd nad ydynt wedi ymateb. Bydd y rhai sy'n cynnal yr ymweliadau yn gwisgo cyfarpar diogelu personol ac yn dilyn yr holl ganllawiau mewn perthynas â'r coronafeirws.<br><br>Bydd tua 40-50% o aelwydydd yng Nghymru yn cael holiadur papur, gan eu bod yn llai tebygol o ymateb ar-lein o bosibl. Gallwch unrhyw un ofyn am gopi papur. Mae SYG wedi cynyddu capasiti'r ganolfan alwadau fel y gall pobl lenwi'r cyfrifiad dros y ffôn.<br><br>Nod canolfannau cymorth y cyfrifiad yw cynnig cymorth wyneb yn wyneb, ond dim ond pan fydd yn ddiogel gwneud hynny y caiff y cymorth hwnnw ei roi<br>Ar gyfer cartrefi gofal (a sefydliadau cymunedol eraill), bydd swyddogion y cyfrifiad yn dilyn y protocolau sydd ar waith ar gyfer COVID-19.<br><br>Ceisio nodi myfyrwyr yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor<br>- Gweithio ar ohebiaeth gyda phrifysgolion<br>- Ymgyrch hysbysebu wedi'i thargedu at fyfyrwyr<br><br>Ffocws ar gynnal gyfrifiad gwirioneddol ddwyieithog, gan gynnwys defnyddio artistiaid trosleisio Cymraeg eu hiaith a sicrhau bod holl ddeunyddiau'r ymgyrch ar gael yn Gymraeg. Soniodd EJ fod y slogan yn gweithio'n dda yn Gymraeg. Mynegodd anfoddhad hefyd mai dim ond yn Saesneg y caiff y prif gyfeiriad a ddefnyddir ar gyfer yr holiadur ei nodi. Yn ei ymateb, dywedodd NT y bydd modd defnyddio cyfeiriadau Cymraeg ar gyfer ail gyfeiriadau.<br><br>Gofynnodd JE am y broses o gyfrif lleoedd byw gwag y tro hwn, fel ail gartrefi/cartrefi gwyliau. Eglurodd NT y bydd staff maes yn casglu'r | **Cam gweithredu:** NT i gadarnhau a fydd SYG yn cyhoeddi ystadegau ar eiddo gwag a chartrefi gwyliau |

| | | |
|---|---|---|
| | data hyn lle y bo'n bosibl. Gofynnodd JE hefyd am gynlluniau allbwn ar gyfer hyn.<br><br>Nododd NL fod penderfyniad wedi'i wneud i ohirio'r cyfrifiad yn yr Alban a gofynnodd pam yr oedd SYG wedi penderfynu cynnal y cyfrifiad eleni. Yn ei ymateb, nododd NT fod pobl allan yn cynnal yr arolygon COVID felly penderfynwyd defnyddio'r profiadau hynny, a'r lefel uchel o angen ymhlith defnyddwyr – a ddefnyddiwyd yn eang ar gyfer dadansoddi'r pandemig. Roedd ansicrwydd hefyd ynghylch pa mor hir y byddai'r pandemig yn para a pha mor hir y byddai'n rhaid gohirio'r cyfrifiad. Felly, penderfynwyd bwrw ati ar sail y cyfuniad hwnnw o ffactorau<br><br>Holodd JE am effaith defnyddio'r cyfrifiad i ailgalibro ystadegau'r boblogaeth os yw'n mesur patrymau anarferol yn ystod y pandemig yn hytrach na thueddiadau gwirioneddol. Yn ei ymateb, nododd NT fod ganddynt broses sicrhau ansawdd eang ar waith, a bod arbenigwyr ym maes methodoleg yn eu cynghori ar y mater hwn. | **Cam gweithredu:** NT (neu gydweithwyr yn SYG) i drafod allbynnau yn fanylach yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor. |
| 8. | Unrhyw Fater Arall | |
| | Soniodd SH am y Tasglu Data Cynhwysol, sy'n ceisio gwella'r data cynhwysol a ddelir gan y DU. Mae'n bwriadu cynnal cyfres o drafodaethau bord gron ac mae'n awyddus i drafod y gofynion ar gyfer data lleol gydag awdurdodau lleol. Gofynnodd i wirfoddolwyr ymuno â'r trafodaethau a gynhelir ddiwedd mis Mawrth.<br>Nododd ES ei bod hi'n hapus i gymryd rhan | **Cam gweithredu:** SH i roi manylion cyswllt ES i SYG a rhannu'r gwahoddiad i gymryd rhan yn nhrafodaethau'r tasglu data cynhwysol yn ehangach. |
| 9. | Diwedd | |